

Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Arloesedd y Bont, Doc Penfro



Cyfeiriad

Canolfan Arloesedd y
Bont,
Parc Gwyddoniaeth a
Thechnoleg Sir Benfro,
Doc Penfro,
SA72 6UN

[Cliciwch am
gyfarwyddiadau](#)



Map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf



Oriau
agor

Dydd Llun i
Ddydd Gwener
09:00 i 17:00

Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau a ddarperir, gwiriwch eich llwybr cyn teithio



Yn y car

Mae'r ganolfan asesu wedi'i lleoli oddi ar yr A477 ar **Barc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro**.

Wrth ddod at y gylchfan o Bont Cleddau ar yr A477, cymerwch yr allanfa gyntaf.

Wrth ddod at y gylchfan o Ddoc Penfro, cymerwch y drydedd allanfa.

Cymerwch y drydedd allanfa ar y gylchfan nesaf ac ewch ar hyd y ffordd honno nes i chi weld yr adeilad ar y chwith.

Mae'n adeilad canolfan busnes ddiwydiannol a adeiladwyd o frics a gwydr. Fe'i lleolir i'r de o'r bont dollau sy'n croesi dyrffordd Aberdaugleddau.



Ar y
bws

Y safle bws agosaf at y ganolfan asesu yw Tollau Pont **Cleddau** .

Gwasanaethir y safle gan 349 a 356. Mae'r safle bron i hanner milltir ar droed o'r ganolfan asesu.




Ar y
trên

Yr orsaf drenau agosaf yw **Doc Penfro** (SA72 6HA).

Mae hwn 1 filltir ar droed o'r ganolfan ond sylwch fod y llwybr i fyny'r allt.

Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Arloesedd y Bont, Doc Penfro



Data map ©2022 Google



Parcio

Mae parcio am ddim i ymwelwyr a pharcio i'r anabl ar gael yn y ganolfan.



Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi.

Byddwch yn mynd i mewn i'r adeilad trwy ddrws awtomatig neu garwsél. Mae'r dderbynfa yn union o'ch blaen.

Rhowch wybod i'r derbynnydd eich bod wedi cyrraedd ar gyfer apwyntiad.



Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae mynediad heb risiau i'r adeilad. Mae'r ystafelloedd asesu i gyd ar y llawr gwaelod ac mae toiled hygyrch ar gael.